| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 23 Mai 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Adroddiad Ariannol (Sefyllfa Ariannol Derfynol 2022/23) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Cabinet wedi derbyn adroddiadau monitro rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ariannol ynglŷn â pherfformiad gwariant yn erbyn y gyllideb a'r arbedion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2022/23 ar y trywydd cywir i gael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi er gwybodaeth. Ar ôl ymgynghori ag Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y bwriad ar hyn o bryd yw bod y cyfrifon archwiliedig wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2024 i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi gwybod am y sefyllfa refeniw derfynol a chymeradwyo'r dull arfaethedig o drin balansau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n nodi'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2022/23.

3.2 Bod Aelodau'n cymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1 a 2.

3.3. Bod Aelodau'n nodi manylion y trosglwyddiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac allan ohonynt fel y nodwyd yn Atodiad 3.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Manylir ar ffigurau'r Sefyllfa Refeniw Derfynol yn Atodiad 1, ynghyd â'r driniaeth arfaethedig o falansau gwasanaeth diwedd blwyddyn. Crynhoir y pwyntiau allweddol isod:

- Mae'r sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys gorwariant o £3.509m gan ysgolion) yn orwariant o £5.095m.
- Ac eithrio ysgolion, y sefyllfa yw gorwariant o £1.585m.
- Ar yr ochr ariannu, roedd diffyg bychan iawn o £0.019m yn y gyfradd gasglu bresennol ar gyfer Treth y Cyngor.
- Canlyniad hyn oedd gorfod defnyddio £1.604m o arian wrth gefn na chafodd ei glustnodi er mwyn ariannu'r gorwariant net.

Yng nghyllideb 2022/23 roedd gofyn dod o hyd i arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £0.754m a chymerir bod y rhain wedi eu cyflawni.

**4.2 Ysgolion** – Roedd y gyllideb y cytunwyd arni gan y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £4.4 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd i grantiau gan Lywodraeth Cymru). Bydd gwerth £8.939m o falansau ysgolion yn cael eu dwyn ymlaen i 2023/24, sy'n cynrychioli gostyngiad o £3.509m yn y balans a ddygwyd ymlaen i 2022/23, sef £12.448m. Bydd cydweithwyr Addysg a Chyllid yn gweithio'n agos i helpu i sicrhau bod y balansau hyn yn cael eu defnyddio mewn modd amserol ac effeithiol. Mae manylion y sefyllfa balansau ysgolion yn **Atodiad 2**.

**4.3 Cyllidebau Corfforaethol** – Mae prif elfennau'r tanwariant o £2.203m yn ymwneud â nifer o ffactorau yr adroddwyd yn eu cylch wrth y Cabinet drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae mwyafrif y tanwariant yn ymwneud â chyllidebau arian at raid sy'n cael eu cadw'n ganolog ar gyfer effaith barhaus bosibl Covid, setliadau cyflog, pwysau chwyddiant a Chyfraddau Busnes. Mae'r cynnydd yn y tanwariant o'r hyn a adroddwyd ym mis Mawrth

yn ymwneud yn bennaf ag ad-daliadau a gafwyd oherwydd ail werthuso Cyfraddau Busnes a chostau pensiwn is.

**4.4 Sefyllfa Ariannol Derfynol Gwasanaethau** – Fel y cytunwyd yn yr hydref, oherwydd y sefyllfa gyffredinol mewn gwasanaethau ac argaeledd cronfeydd corfforaethol, cynigir nad yw gwasanaethau'n dwyn unrhyw danwariant ymlaen i helpu i gyflawni'r strategaeth cyllideb gyffredinol a helpu i ariannu gorwariant gwasanaethau eraill. Dangosir sefyllfa gwasanaethau yn **Atodiad 1**.

**4.5** Mae **Atodiad 3** yn rhoi manylion llawn y trosglwyddiadau i mewn i **Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** ac allan ohonynt. Mae'r rhan helaeth o'r symudiadau wedi'u cynnwys yn y gyllideb neu wedi'u cymeradwyo yn sgil adroddiadau monitro blaenorol i'r Cabinet. Dylid nodi bod yr holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol yn sylfaen i waith ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2022/23 oedd £233.696m. Y sefyllfa derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaethau oedd gorwariant net o £1.585m (1% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y meysydd hynny). Gan ystyried cyllid ac ysgolion, roedd yr amrywiant ar gyfanswm y gyllideb yn orwariant o £5.114m (2.2% o'r gyllideb refeniw net). Mae'r gorwariant net yn cynnwys £3.509m o orwariant mewn ysgolion, sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar wahân. Roedd y sefyllfa gyffredinol yn gofyn am ddefnyddio £1.604m o gronfeydd wrth gefn na chafodd eu clustnodi er mwyn ariannu'r sefyllfa gorwariant net.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor ar 25 Ionawr 2022.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol hefyd wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Mae lefel sylweddol y gorwariant ar draws y gwasanaethau yn bryder mawr yn y flwyddyn bresennol ac ar gyfer y tymor canolig. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y meysydd gwasanaeth penodol hyn dros y blynyddoedd diwethaf, a disgwylir y bydd yr angen hwnnw'n parhau. Fodd bynnag, croesewir y ffaith bod pob gwasanaeth wedi adolygu gwariant ac incwm yn eu meysydd i helpu i liniaru'r gorwariant hwn yn y gyllideb yn ystod yr hydref a bod y sefyllfa derfynol yn gyffredinol yn unol â'r monitro yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr ymarfer hwnnw. Mae'r materion hyn, ynghyd â phwysau chwyddiant drwy'r holl wasanaethau, yn dod yn fwyfwy anodd eu hariannu wrth i'n cyllid fethu dal i fyny â'r pwysau o ran chwyddiant, gwasanaethau a demograffeg. Mae'r camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn i helpu i leihau'r pwysau cyffredinol yn golygu ein bod wedi gallu ariannu'r gorwariant o gronfeydd wrth gefn na chafodd eu clustnodi wrth gadw lefelau'r cronfeydd hynny uwchben £5m, sy'n lefel ddarbodus i ymdopi â phwysau ariannol na ellir ei ragweld.

Er bod balansau ysgolion wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, maent yn parhau ar lefelau uchel yn hanesyddol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd ysgolion yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn 2023/24 a 2024/25 a disgwylir i'r balansau hyn syrthio eto yn y blynyddoedd hynny.

Mae gan y Cyngor broses gyllidebol gadarn sy'n helpu i nodi'r pwysau hyn ac arbedion a dulliau ariannu a fydd yn helpu i gynnal cyflwr ariannol y Cyngor i'r dyfodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae’n parhau i fod yn gyfnod heriol iawn yn ariannol ac mae ansicrwydd yn parhau mewn perthynas â’r cynnydd parhaus mewn chwyddiant, a strategaeth ariannol Llywodraeth y DU wrth ymdrin ag effaith ariannol hirdymor yr ymateb i Covid a’r argyfwng costau byw ar gyllid cyhoeddus. Cafodd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, oedd yn rhoi ystod o ragolygon ariannol a chrynodeb o Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2024/25 a thu hwnt, ei chyflwyno i’r Cabinet ym mis Ebrill.  Mae hwn yn sail i’r dull rheoli risg.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.